| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Y PWYLLGOR SAFONAU** |
| **Dyddiad :** | **4 Tachwedd 2019** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol)** |
| **Pwrpas :** | **Er gwybodaeth** |

**1. Cefndir**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

**2. Penderfyniadau**

Derbyniwyd un penderfyniad gan yr Ombwdwmon ers yr adroddiad diwethaf. Ar hyn o bryd rydym yn ywmeybodol o bedair cwyn lle mae'r Ombwdsmon yn ystyried os dylai ymchwilio iddynt.

**<u>Cwyn 7294/201806883</u>**

Cwyn bod cynghorydd tref wedi torri darpariaethau canlynol y Cod Ymddygiad:

- Yr angen i ddangos parch ac ystyriaeth i eraill
- Pedio bwlio nac aflonyddu unrhwy unigolyn
- Peidio ymddwyn mewn modd sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu'r awdurdod
- Peidio defnyddio safle yn amhriodol i roi neu sicrhau mantais i chi neu unrhyw unigolyn arall

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio am y rhesymau canlynol:

- Nid oedd wedi ei berswadio y gellid priodoli sylwadau eraill tuag at deulu'r achwynydd ar Facebook i'r cynghorydd na'i ddyletswyddau o dan y Cod
- Nid oedd sylwadau, a oedd yn wleidyddol eu natur, yn ddigon difrifol i gyfiawnhau ymchwiliad
- Hyd yn oed petai toriad o'r Cod yn cael ei brofi mewn perthynas â'r honiad o ddefnyddio safle yn amhriodol, ni fyddai'n ddigon difrifol ei natur fel y byddai Pwyllgor Safonau yn ystyried gosod cosb.

**3. Dadansoddiad o'r Cwynion**

Isod ceir dadansoddiad o natur y cwynion y cafwyd penderfyniad arnynt hyd yn hyn eleni (2019/20):

| **Aelod y gwnaed y gŵyn yn ei (h)erbyn** | |
|---|---|
| Aelod o gyngor cymuned | 1 |
| Aelod o Gyngor Gwynedd | 0 |
| Aelod o Gyngor Gwynedd a chyngor cymuned | 0 |
| **Natur yr achwynydd** | |
| Cynghorydd | 1 |
| Aelod o'r cyhoedd | 0 |
| Swyddog | 0 |
| **Natur yr honiad** | |
| Ymddygiad cyffredinol | 1 |
| Datgan Buddiant | 0 |
| Ymddygiad cyffredinol a Datgan Buddiant | 0 |
| **Canlyniad** | |
| Dim ymchwiliad | 1 |
| Ymchwiliad – dim tystiolaeth o dorri'r Cod Ymddygiad | 0 |
| Ymchwiliad – tystiolaeth o dorri'r Cod ond dim camau pellach | 0 |
| Ymchwiliad - cyfeirio at y Pwyllgor Safonau | 0 |
| Ymchwiliad - cyfeirio at Banel Dyfarnu Cymru | 0 |

**4. Achosion Agored**

Mae'r sefyllfa o safbwynt achosion eraill fel a ganlyn:

- **Ombwdsmon yn ystyried os dylai ymchwilio 3**
- **Ombwdsmon yn cynnal ymchwiliad 0**

**5. Argymhelliad**

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth